**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 17/02/2022 AM 7.00pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID.**

**1. CROESO'R CADEIRYDD & MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Owen, holl yn bresennol, i'r Cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen, wrth lynnu wrth rheoliadau Covid-19 Llywodraeth Cymru.
Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof am y gyn-Gynghorydd Cymunedol Mr Selwyn Jones; yn drist iawn, bu farw ar Ddydd Sadwrn y 5ed Chwefror 2022. Cytunwyd cyflwyno tusw o flodau i'w wraig Mrs Neli Jones fel arwydd o gydymdeimlad.

**2. YN BRESENNOL**
**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
Y Gyngh Clare Hughes; Y Gyngh. Angharad Jones (Is-Gadeirydd); Y Cyngh. John Jones; Y Gyngh. Mair Jones**;** Y Cyngh. Non Jones; Y Cyngh. Gareth Owen, Y Cyngh. Alun Price-Jones, & Eleri Thomas (Clerc).

**CYMDEITHAS MYNYDDOEDD CAMBRIA**

Mrs Dwynwen Belsey: Ymddiriedolwr
Mr Chris Belsey
Lorna Brazell: Ymddiriedolwr

**3**. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies a'r Cyngh Doug Rowbotham am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **CYFLWYNIAD**
Derbyniwyd cyflwyniad gan Mrs Dwynwen Belsy, Ymddiriedolwr Cymdeithas Mynyddoedd Cambria, wedi'i chynorthwyo gan Lorna Brazell a Mr Chris Belsey.
Mae Cymdeithas Mynyddoedd Cambria yn ceisio dynodi Mynyddoedd Cambria yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ("AHNE").

Gall dynodi ardal ddod â chyfleoedd gwirioneddol gyda chymunedau lleol fel Ystrad Fflur, o ran mwy o gydnabyddiaeth a datblygiad economaidd.
Ond gall hefyd godi heriau, gan gynnwys fel nifer cynyddol o ymwelwyr a disgwyliadau newidiol o ran sut y bydd yr ardal yn cael ei chyflwyno a'i rheoli. Os yw am fod yn llwyddiant, mae angen iddo weithio i bob parti.
Gobeithir cael mewnbwn gan yr holl gymunedau o amgylch ucheldiroedd Cambria i glywed barn ar gydbwysedd buddion a materion.
**Gwybodaeth pellach ar gael wrth ddilyn y dolenni:**

file:///C:/Users/test/OneDrive/Email%20attachments/CMC%20Presentation.pdf

CMS Proposal for Designation of the Cambrian Mountains(3).pdf
**Roedd aelodau'r Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r cais ac anfonir llythyr o gefnogaeth maes o law.**
Diolchwyd i Dwynwen am ei chyflwyniad diddorol.

## 5. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

**Diweddarodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) John Evans** yr aelodau ar ddigwyddiadau diweddar gan sôn mai tawel bu'r misoedd diwethaf.
Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Aflonyddwch: 0
Byrgleriaeth: 0
Difrod Troseddol: 0
Dwyn: 0
Trais / Ymsodiad: 0

## 6. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU

Dim.

## 7. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 20fed Ionawr 2022

**CYNIGIWYD** (y Cyngh. Non Jones), **Eiliwyd** (y Cyngh. Clare Hughes) a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion Cyfarfod yr 20fed o Ionawr 2022, yn gywir, arwahan i'r canlynol:
**Cofnod 7.7: Cod Post Neuadd Pantyfedwen: dylai ddarllen SY25 6BB.**
**Arwyddwyd gan y Cadeirydd.**

## 8. MATERION YN CODI

**8.1 Tocio Coed wrth gefn i Ystâd Maesydderwen.** Adroddodd Adnoddau Naturiol Cymru nad ydynt yn gyfrifol am docio'r coed dan sylw ac yn cynghori'r Cyngor Cymuned i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion am gyngor pellach. Ystyrir y darn o dir fel tir cyffredin. Aseswyd y sefyllfa gan y Cyngh. Owen a'r Cyngh. Non Jones. Y mae angen tocio rhai canghennau'n y dyfodol.

**8.2 Ffens y Parc (rhwng y parc a'r cae pêl droed – uchder 1m):** y Gyngh. Clare Hughes wedi clustnodi sylw i'r mater. Cytunwyd i gysylltu â'r Clwb Pêl Droed i ddarganfod pwy oedd yn gyfrifol am y ffens a tybed a oedd angen iddo fod mewn lle. Cynigiwyd gan y Gyngh. Angharad Jones. Eiliwyd gan y Cyngh. Alun Price Jones.

**8.3 Trwsio'r Hysbysfwrdd Ffair Rhos:** Y Cyngh. Gareth Owen wedi ymwneud â'r dasg.

**8.4 Jiwbilî Platinwm Ei Mawrhydi y Frenhines ym 2022**

Y mae'n bosibl wneud cais am arian gan y Loteri Genedlaethol i nodi Jiwbilî Platinwm Ei Mawrhydi y Frenhines ym 2022. Mae Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn derbyn ceisiadau gan gymunedau sy'n datblygu prosiectau sy'n costio llai na £10,000 i ymuno â'r dathliadau. Dylai prosiectau fodloni nodau safonol a meini prawf cymhwysedd y rhaglen grant. Er nad yw'n hanfodol, bydd y prosiectau cryfaf hefyd yn bodloni tri maes ffocws: hyrwyddo perthnasoedd ar draws cenedlaethau; datblygu sgiliau a phrofiad cymunedau; annog gofalu am/gweithredu yn y byd naturiol fel rhan o'r dathliadau. Hefyd yn derbyn ceisiadau am ddigwyddiadau untro ar ddiwrnod y Jiwbilî sy'n bodloni'r maen prawf hwn. Bydd y ceisiadau cryfaf yn dangos effaith barhaol y tu hwnt i'r digwyddiad ei hun ac mae'n debygol y bydd y Loteri'n derbyn mwy o geisiadau nag y gall ei ariannu.

Ewch i [Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol Cymru | Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (tnlcommunityfund.org.uk)] am wybodaeth.

Cytunwyd i drefnu cyfarfod agored ar gyfer Nos Iau 17eg o Fawrth 2022 am 6.30pm yn Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen i drafod y ffordd ymlaen gyda'r bwriad o sefydlu is-

bwyllgor.   I osod posteri'n y Siop, Cambrian News, y Barcud, Facebook a safle ar y we'r Cyngor Cymuned.  I  hysbysu'r Ysgol.

**9 GOHEBIAETH**

**9.1** **Gohebiaeth oddi wrth Lowri Jones Cydlynydd Bro360**:  trwy brosiect peilot Bro360, mae Cwmni Golwg wedi cefnogi cymunedau ardal Tregaron a'r fro dros y ddwy flynedd diwethaf i greu a chynnal gwefan straeon lleol – Caron360. Er gwaetha' problemau'r panedmig, mae'r wefan wedi mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu ym mis Mai 2020, gyda 142 o straeon wedi'u cyhoeddi gan dros 50 o bobol leol. Trwy'r straeon amrywiol ar y wefan, prosiectau fel Gŵyl Bro a sesiynau hyfforddiant creadigol, mae'n cyrraedd nod creiddiol Bro360 o hybu a hyrwyddo gweithgarwch cymunedol. Mae'n llwyddo am fod yr elfen leol yn llwyr yn nwylo gwirfoddolwyr, ac am fod cydweithio hwylus gyda phapurau bro a mudiadau a mentrau eraill lleol.

i gefnogi'r egni llawr gwlad, mae tîm Bro360 yn datblygu'r dechnoleg, yn gweithio'n agos gyda phobol i'w hysgogi a'u cefnogi'n greadigol, ac yn darparu fersiynau lleol iawn o straeon cenedlaethol.

**Y camau nesa'**

Y bwriad ydy symud i ardaloedd newydd, gan ddechrau gyda chymunedau de Ceredigion, yn ogystal â pharhau i ddarparu cefnogaeth i'r ardaloedd presennol. Ar yr un pryd, mae cynlluniau ar droed i ddatblygu incwm masnachol gan fusnesau, yn lleol iawn ac yn rhanbarthol. Ond, mae arian y prosiect peilot yn dod i ben ym mis Mawrth 2022.  Mae cais am grant gyda'r Loteri ar y gweill, fyddai'n sicrhau cyfran o'r arian sydd ei angen i wneud gwaith datblygu, ond mae angen mewnbwn yn lleol hefyd er mwyn cynnal y gefnogaeth i'r gwefannau sy'n bod eisoes.  Gan hynny, gofynnwyd am gymorth i gefnogi parhad a datblygiad Caron360 ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.  Wrth gyd-weithio i gefnogi Caron360, bydd y wefan fro yn hyrwyddo a datblygu bywyd Cymraeg y gymuned, yn cyfrannu at ddefnydd o'r Gymraeg yn lleol, ac yn rhoi llwyfan i fusnesau lleol gystadlu ar y we.

**Democratiaeth leol-iawn**

Yn ogystal â darparu cefnogaeth ariannol, mae cyfle arall i Gyngor Cymuned Ystrad Fflur wneud gwahaniaeth i'r gymuned. Gwahoddwyd i gyfrannu straeon bach am ddatblygiadau, llwyddiannau neu gyfarfodydd y Cyngor Cymuned ar Caron360. Gan ei bod yn flwyddyn etholiadau lleol, gall hyn fod yn ffordd wych o helpu mwy o bobol i wybod beth sy'n digwydd ar y lefel fwya lleol o ddemocratiaeth.  Estynnwyd gwahoddiad at ddau gynrychiolydd i sesiwn syniadau arbennig Bro360, a fydd yn cael ei chynnal gan Bro360 ar Zoom ym mis Mawrth, er mwyn gweld sut mae Cynghorau Tref a Chymuned eraill wedi manteisio ar eu gwefan fro.

**Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.**

**9.2** **Chwarae Dros Gymru: Rhifyn 58, Gaeaf 2021**; i gyflwyno'r ddolen ar safle ar y we a Facebook y Cyngor Cymuned.

**9.3** **Gwnaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chyllid Orchymyn ym mis Hydref 2021 ynghylch y newidiadau i Wardiau Etholiadol yng Ngheredigion**. Daw'r rhain i rym o 5 Mai 2022 h.y. ymleddir etholiadau'r Cyngor Sir yn y Wardiau newydd.

Crynhoir y newidiadau fel a ganlyn:

- Gostyngiad o 42 i 38 i Gynghorwyr;
- Gostyngiad yn nifer y wardiau etholiadol o 40 i 34;
- Mae 18 newid i wardiau etholiadol i gyd;
- Bydd 4 ward etholiadol aml-aelod.

Mae rhestr lawn o'r Wardiau a nifer y cynghorwyr fesul Ward ar gael ar Etholiadau Llywodraeth Leol 2022 - Cyngor Sir Ceredigion (o dan Etholiadau'r Cyngor Sir)

Yn ogystal, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cyhoeddi'r Wardiau Etholiadol newydd ar fap rhyngweithiol, sydd ar gael ar Mapiau o'r ardaloedd lleol yng - Cyngor Sir Ceredigion

**Noder – does dim newid i Gynghorau Cymuned a Thref.**

9.4 **Dŵr Cymru: Cyn-ymgynghoriad ar gyfer Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (Drafft) Cymru 2024.** Datblygir y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr bob pum mlynedd, sy'n nodi sut y bydd Dŵr Cymru yn rheoli adnoddau dŵr ar draws yr ardal gyflenwi i gwrdd ag anghenion presennol a dyfodol dros y 25 mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd mae Dŵr Cymru'n datblygu'r Cynllun nesaf ar gyfer y cyfnod 2025-2050 ac yn lansio'r Cyn-ymgynghoriad i gynnig cyfle i randdeiliad i leisio barn ar sut i ddatblygu'r Cynllun a'r meysydd blaenoriaeth y dylid ei geisio mynd i'r afael â hwy.
Bydd y Cyn-ymgynghoriad yn rhedeg tan y 21ain Mawrth, sylwadau i'w cyflwyno i Water.Resources@dwrcymru.com.

9.5 **Gohebiaeth pellach: nodwyd er gwybodaeth.**
Dywedodd y Gyngh. Mair Jones, sydd heb fod â phresenoldeb ar-lein y dymunai fod y gohebiaeth a dderbyniwyd yn electronig yn ystod y mis ac a anfonwyd ymlaen trwy e-bost i gynghorwyr, gael ei thrafod yn ystod y cyfarfodydd misol. Cofnodir eitemau gohebiaeth mwyaf perthnasol yn y Cofnodion eisoes**.**

## 10. CYLLID

10.1 **Archwilio Cyfrifon 2021:** Gwybodaeth ynghylch Archwiliad Allanol Statudol. Gwnaeth y Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio'r Ffurflen Flynyddol yn ystod y cyfarfod Mehefin 2022 a'r Cyngor ei chymeradwyo. Gellir dod o hyd i sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned @ 31.03.2021 ar y safle ar y we: Blwyddyn Ariannol – Fiscal Year 2019-2020; 2020-21 | Cyngor Cymuned – Ystrad Fflur – Community Council (ccystradfflurcc.org.uk)
Adroddodd Panel Archwilio Cymru bod oedi yn amser prosesu'r Archwiliad Allanol eleni 2020-21.
10.2 **Cyflog y Clerc: Ionawr 2022:** £193.83
10.3 **Gel llaw alcohol: £35.82; TAW £7.16;** Cyfanswm £42.98
10.4 **Batris ar gyfer diffibrilwyr**: £35.16; TAW: £7.04; CYFANSWM: £42.20
10.5 **Blodau: y diweddar Mr Selwyn Jones**: £35
10.6 **Costau'r Cadeirydd 2021-22: £0.** £100 wedi'i nodi'n gamarweiniol – sef y gost o ddosbarthu holiaduron yn ymwneud ag adeilad yr eglwys flaenorol Santes Fair y Mhontrhydfendigaid.

## 11. CEISIADAU CYNLLUNIO
**Dim ceisiadau cynllunio i'w hystyried.**

## 12. UFA
12.1 **Gofynnodd Gwenllian Beynon** tybed a fyddai'n bosibl i'r Cyngor Cymuned i wneud cyfraniad i adnewyddu murlun y pentref. Cytunwyd i ystyried y cais yn ystod y cyfarfod nesaf.
12.2 **Yr Hen Swyddfa Bost, Pontrhydfendigaid:** Adroddodd y Gyngh Hughes y gallai teils y to fod yn beryglus. Hefyd, "Tŷ Gwyn, Llangybi". i hysbysu Cyngor Sir Ceredigion.
12.3 **Mae baw ci'n amlwg ar nifer o leoliadau o fewn y Pentref** ac yn enwedig yng nghyffiniau Dolau Bach. Defnyddiwyd chwistrell yn y blynyddoedd blaenorol i fynd i'r afael â'r broblem.

**12.4** **Lôn Fach:** Y mae clawdd wedi'i dorri ar y lôn ac fel canlyniad mae rhwystr wedi codi. Yn ogystal, mae gormod o ddŵr wedi crynhoi ar yr wyneb. Mae angen clirio'r lôn a'r draeniau. **i hysbysu Cyngor Sir Ceredigion.**

**12.5** **Gwasanaeth Sul y Cofio, Pontrhydfendigaid 2023**: gellid ceisio am drwydded cau ffordd dan law Cyngor Sir Ceredigion yn ystod amserau allweddol y gwasanaeth.

**12.6** **Trafodwyd problemau traffig/parcio ger fynedfa'r Llew Du** ac yng nghyffiniau'r Llew Coch**. i'w osod ar agenda'r mis nesaf.**

**12.7** **Cyffordd B4343 a B4340:** mae arwyneb y ffordd i weld fel petai'n codi; mae twll ar y ffordd ger Llysteg. **i hysbysu Cyngor Sir Ceredigion.**

**12.8** **Cytunwyd i ofyn i Gyngor Sir Ceredigion** pa ganran y flwyddyn y caniateir llety gwyliau i fod yn agored.

**12.9** **Mae angen tocio coed ger Tyllyn, Ffair Rhos.** i adrodd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.50pm.**

**13. DYDDIAD Y CYFARFOD/YDD NESAF**

**Nos Iau 17eg o Fawrth 2022 @ 6.30pm**- Cyfarfod Agored i drafod Jiwbili Platinwm Ei Mawrhydi Elisabeth 11

**7.00pm Cyfarfod Misol.**

**Lleoliad**: Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen neu dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru parthed Covid-19.

=================================================== (Arwyddwyd / Dyddiad)